

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau,
Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Iau 16 Chwefror, 2017 am 10.30am

Cysylltwch â: Hannah Williams (Ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ddydd Mawrth 14 Chwefror 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cabinet yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn munudau cyfarfod diwethaf y Cabinet a gafodd ei gynnal ddydd Iau 9 Chwefror, 2017.

3. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2017/18 – 2019/20

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n cynnig rhaglen cyfalaf 3 blynedd ar gyfer 2017/18 - 2019/20.

(Tudalennau 13 - 40)

4. TREFNIADAU CYN Y CAM CRAFFU: GWEITHLE DIGIDOL - DULLIAU GWEITHIO'N HYBLYG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, gan roi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth 13 Rhagfyr 2016, i'r Cabinet. Bydd hyn yn manylu ar y rhaglen uchelgeisiol a sylweddol sy'n trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor yn ddigidol.

(Tudalennau 41 - 76)

5. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd y Cabinet, sy'n rhoi cyngor i Aelodau ar ddeiliant y cyfarfod diweddar â Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg. Bydd hyn yn manylu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu.

(Tudalennau 77 - 228)

6. CYNLLUN PEILOT LLYWODRAETH CYMRU - CYNIG 30 AWR O OFAL I BLANT RHWNG 3 A 4 OED

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, gan roi gwybodaeth i'r Aelodau am gynig Llywodraeth Cymru i ddarparu gwerth 30 awr o ofal plant/addysg am ddim i blant 3 a 4 oed sy'n gymwys.

(Tudalennau 229 - 268)

7. FFRAMWAITH ADFYWIO LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID LLYWODRAETH CYMRU: CYNIGION AR GYFER CYFLEOEDD POSIBL AM GYLLID

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio, sy'n nodi'r manylion am gynigion ar gyfer cyfleoedd posibl am gyllid ar gyfer ardal anheddiad Pontypridd. Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru os bydd rhagor o gyllid ar gael yn y dyfodol.

(Tudalennau 269 - 274)

8. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN WEITHREDU, DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL: RHAGLEN WEITHREDU. DEALL EIN CYMUNEDAU: ASESIAID O ANGHENION Y BOBLOGAETH A'R ASESIAID LLESIANT

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, gan ddarparu diweddariad gan weithlu amlasiantaeth Cwm Taf sy'n gyfrifol am lunio'r Aseiad o Anghenion y Boblogaeth sydd ei angen o dan ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Aseiad Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

(Tudalennau 275 - 550)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL HWB DIOGELU AMLASIANTAETH CWM TAF 2015/16

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhannu Adroddiad Blynyddol Blwyddyn Gyntaf Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf 2015/16.

(Tudalennau 551 - 588)

10. DATBLYGU'R FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, gan roi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol ledled Cymru.

(Tudalennau 589 - 646)

11. PRAWF GWYBODAETH GYRRWR CERBYD HACNI (TACSIS)/CERBYD LLOGI PREIFAT

Derbyn Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, sy'n gofyn i'r Cabinet gyflwyno amod gofynnol i'r rheiny sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni (Tacsi) Cerbyd Llogi Preifat. Byddai hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw basio Prawf Gwybodaeth Gyrrwr Cerbyd Hacni (Tacsis)/Cerbyd Llogi Preifat.

(Tudalennau 647 - 652)

12. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y
Cynghorwyr: A. Morgan (Cadeirydd)
M. Webber (Is-gadeirydd)
R. Bevan
A. Crimmings
M. Forey
(Mrs) E. Hanagan
G. Hopkins
M. Norris
(Mrs) J. Rosser

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd